

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

1/10/2019

**Presennol:** Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Alwyn Roberts **Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**2036 Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd a estynnodd groeso arbennig i Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri a Thai Teg

**2037 Cyflwyniad** ar y Cynllun Tai Teg: Mae cymorth o bob math ar gael i allu cael cartref fforddiadwy. Y neges bwysig yw bod rhaid cofrestru er mwyn allu bod yn rhan o gynllun i gael benthyciad di-log neu gymorth i gael cartref. Mae grant ar gael gan Gyngor Gwynedd hefyd. Y cam pwysig yw ffonio 03456015605 neu e-bostio [info@taiteg.org.uk](mailto:info@taiteg.org.uk) <<mailto:info@taiteg.org.uk>>

Y Cynllun Datblygu Lleol - cafwyd amlinelliad gan y Swyddogion a thrafodaeth ar bolisi trosi tai allan ffermydd, sy'n rhan o bolisi Llywodraeth Cymru. Mynegodd y Cyngor ddymuniad i fod yn rhan fwy gweithredol pan fydd y polisi'n cael ei adolygu, yn arbennig wrth adnabod tir ar gyfer adeiladu o'r newydd. Mae'r cynlluniau ar gyfer cartrefi fforddiadwy ar y gweill, ond nid oes cyfle i adeiladu'n breifat o fewn cynllun datblygu'r pentref; eglurwyd barn y Cyngor fod hwn yn milwriaethu yn erbyn cadw pobl broffesiynol yn y pentref a goblygiadau pellach hyn o ran cynnal y Gymraeg a chynnal pentref hyfyw. Dywedwyd bydd y broses adolygu'n dechrau yn 2024 ac awgrymwyd bod angen i dirfeddianwyr gynnig tir ar gyfer adeiladu cyn hynny. Diolchwyd i'r gwesteion i gyd am eu presenoldeb a'u parodrwydd i wrando ar anghenion lleol.

**2038 Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**2039 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi'r 3ydd, 2019

**2040 Materion y Clerc :**

- i. Goryrru ar yr A494: bu'r fan Gan Bwyll yn yr ardal. Cytunwyd i ofyn am linellau dwbl gwyn o Stryd y Prys at y tro.
- ii. Derbyniwyd caniatâd i osod Paneli Gwybodaeth.

**2041 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a soniodd fod Swyddogion yn edrych ar y twmpathau wrth Ysgol O M Edwards ac wrth yr Eglwys oherwydd eu bod mewn manau peryglus. Bydd y prosiect o greu map o enwau lleol yn mynd yn ei flaen gyda chydweithrediad Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd ymweliad safle yn fuan wrth y Bont Newydd, Penantlliw. Cytunwyd hefyd i dynnu sylw NMWTRA at y cynnydd mewn prysurdeb wrth yr hen ffatri laeth.

**2042 Materion Eiddo'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad Karl Jones a ddywedodd ei fod wedi cyflwyno dyfynbrisiau gwella toiledau i Lindsey Ellis-Edwards er mwyn gwneud ceisiadau grantiau.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

**2043 Y Fynwent:** Cytunwyd ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor.

**2044 Paneli Gwybodaeth:** Derbyniwyd adroddiad Beryl Hughes Griffiths yn mynegi y bydd y paneli yn eu lle yn fuan. Cytunwyd i gael taith o un panel i'r llall yr adeg honno.

**2045 Materion ariannol:**

- Derbyniwyd adroddiad ys Is-bwyllgor Cyllid, yn cynnwys Adroddiad BDO.
- Cytunwyd gydag argymhelliad yr is-bwyllgor i glustnodi £5000 yn y Gyllideb nesaf tuag at y prosiect llain bob tywydd ar safle cae'r ysgol, a fydd at les a defnydd y gymuned gyfan. Cytunwyd ymhellach i gyfrannu £200 tuag at gynnal a chadw'r llain unwaith y bydd yn ei le.
- Cytunwyd i dalu biliau, yn cynnwys
  - i. cyflogau
  - ii. gwaith torri coed a ffensio wrth y fynwent newydd (O Llur Edwards)
  - iii. gwaith cynnal ar hysbysfwrdd gyferbyn a'r Eglwys (Owain Sion)

**2046 Materion lleol:** Cytunodd Beryl Hughes Griffiths i ddod a syniadau gerbron ar gyfer nodi canmlwyddiant marwolaeth Syr O M Edwards.

Addawodd Karl Jones i siarad gyda pherchennog car sydd wedi ei barcio mewn lle anghyfleus iawn yn y pentref.

Tynnwyd sylw Urdd Gobaith Cymru trwy Huw Antur at ddŵr sy'n sefyll ar un rhan o Lwybr Tegid.

Mae cwynion yn parhau ei bod yn anodd cyrraedd Llwybr y Cei yn ddiogel. Mae'r Cyngor wedi ymdrechu lawer yn y gorffennol i gael datrysiaid i'r broblem; mae gwreiddiau coed yn codi tarmac y llwybr hefyd.

**2047 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr, Huw Antur a Alwyn E Jones, a soniodd am brysurdeb y Ganolfan a'r gwaith arfaethedig ar y llawr uchaf, Trefnir noson i 5 cyngor ardal Penllyn gyfarfod i arfarnu gwaith y Bartneriaeth ac i glywed am fentrau lleol.

**2048 Gohebiaeth:** Ystyried gohebiaeth

- i. Parc Cenedlaethol Eryri – cymeradwywyd cais cynllunio Bwch yn Uchaf i chwalu hen estyniad a chodi un newydd.
- ii. Triathlon: Rhybudd o gyfarfod ar 21/10/19 ar gyfer cynrychiolwyr y Cyngor (Arwel Lloyd Jones a Rhodri Jones)
- iii. Canser: cytunwyd i gefnogi'r ymgyrch canolfan diagnosis yng Ngwynedd gan dynnu sylw mai'r Maelor yw ysbyty cleifion yr ardal hon.
- iv. Cais am gyfraniad tuag at Dreialon Cenedlaethol Cŵn Defaid 2020: Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cyfrannu o Gronfa'r Cadeirydd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5/11/19